**COFNODION PWYLLGOR Y TY**

**Dyddiad**: 7 Hydref 2004

**Amser**: 9.00am

**Lleoliad**: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd

**Yr Aelodau oedd yn bresennol:**

Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, AC Llafur
William Graham, AC Ceidwadwyr
Janice Gregory, AC Llafur
Karen Sinclair, AC Llafur
Owen John Thomas, AC Plaid Cymru
Y Llywydd (yn bresennol)

**Y swyddogion oedd yn bresennol:**

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty
Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad
Karin Phillips, Pennaeth Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau
Gwyn Griffiths, Is-Adran y Gyfraith
Wayne Cowley, Pennaeth Y Swyddfa Ffioedd
Nerys Evans, Pennaeth Rheoli Swyddfeydd a Chyfleusterau
Sara Lloyd Mackay, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty
Catherine Morris, Ysgrifennydd Preifat i'r Dirprwy Lywydd

**Ymddiheuriadau**:

Peter Black, AC Y Democratiaid Rhyddfrydol
John Bowley, Cyfarwyddwr yr Is-Adran Gwasanaethau Corfforaethol

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r arsylwyr i ail gyfarfod cyhoeddus Pwyllgor y Ty.

## 1 <u>Cofnodion y cyfarfod diwethaf a chamau gweithredu sy'n deillio ohonynt</u>

Nodwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf wedi'u cymeradwyo ar 21 Gorffennaf ac wedi'u cyhoeddi ar 13 Awst 2004.

1.1 <u>Camau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfodydd diwethaf HC(2)-07-04(p1</u>)

<u>Cod Ymddygiad y Cadeirydd ar gyfer Aelodau Pwyllgor y Ty</u>

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Cod Ymddygiad yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Pwyllgor Safonau. Byddai unrhyw ddiwygiadau mawr yn

cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor cyn y byddent yn cael eu cyflwyno gerbron y Cynulliad yn y cyfarfod llawn.

Cynrychiolaeth Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ym Mrwsel

Cadarnhaodd Dianne Bevan fod y swydd wedi'i chynnig i'r ymgeisydd mwyaf addas a bod y gwiriadau diogelwch angenrheidiol yn cael eu cynnal. Byddai adroddiad mwy manwl ar gael yn y cyfarfod nesaf.

Contract Merlin

Nodwyd bod y contract yn mynd rhagddo'n brydlon. Derbyniai'r is-grwp Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) wybodaeth fanwl yn rheolaidd am gontract Merlin. Byddai'r is-grwp TGCh yn cyfarfod yn y dyfodol agos.

## 2 Adroddiadau gan Glerc y Cynulliad

2.1 Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty HC(2)-07-04(p2)

Dywedodd Clerc y Pwyllgor fod yr adroddiad wedi'i baratoi yn unol â'r strwythur cyffredinol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor. Yn ogystal, roedd gwybodaeth am lwfansau a chyflogau yr Aelodau wedi'i darparu yn y fersiwn drafft.

Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch cofnodi ffigurau presenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgor. Nid oedd y ffigurau yn gwahaniaethu rhwng presenoldeb llawn a phresenoldeb rhannol mewn cyfarfod ac felly nid oeddent yn adlewyrchu presenoldeb yn gwbl briodol. Er y cydnabuwyd y pryderon, cytunwyd y gallai unrhyw ymgais i gofnodi'r ffaith bod Aelod yn gadael ac yn cyrraedd yn ystod cyfarfod arwain at anghytundeb barn a chreu baich diangen ar Glercod Pwyllgorau. Cytunwyd mai mater i Gadeiryddion Pwyllgorau ei drafod â'r Aelodau oedd unrhyw absenoldebau.

Nodwyd bod Aelodau yn aml yn absennol o gyfarfodydd pwyllgorau oherwydd bod busnes swyddogol y Cynulliad yn gwrthdaro ac roeddent yn gwneud pob ymdrech i drefnu dirprwy i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd yn eu lle, er nad oedd hyn yn cael ei gofnodi yn y ffigurau. Nodwyd yn ogystal os oedd Aelod ar absenoldeb mamolaeth hirdymor fod y ffigurau'n awgrymu presenoldeb gwael.

Cytunai'r Cadeirydd ei bod yn bosibl camddehongli'r ffigurau. Fodd bynnag, o ystyried cymhlethdod prosesau cofnodi'r rhesymau dros absenoldeb yn sgîl salwch/absenoldeb hirdymor, galar a dyletswyddau yn gwrthdaro a'r ymddiheuriadau nid oedd y wybodaeth yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol. Cytunwyd na fyddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r mater.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am y ffigurau defnyddiol a

gyflwynwyd yn yr adroddiad blynyddol. Nodwyd un mân newid ynghylch cynnwys troednodyn ar dudalen 48. Mabwysiadwyd yr adroddiad blynyddol drafft.

Yn dilyn penderfyniad Pwyllgor y Ty ym mis Tachwedd 2003 i gynorthwyo â chostau teithio ysgolion a cholegau y tu allan i ardal Caerdydd fel y gallant ymweld â'r Cynulliad ym Mae Caerdydd, gofynnwyd am bapur yn amlinellu pa ysgolion a cholegau oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun. Dywedodd Janice Gregory fod y Bartneriaeth Addysg a Busnes hefyd yn darparu cymhorthdal yn ardal Morgannwg Ganol.

Gofynnodd yr Aelodau a allai cynllun cyffelyb gan y Cynulliad gael ei gynnig er mwyn cynorthwyo ysgolion a cholegau i ymweld â chanolfan ymwelwyr y Gogledd.  Cadarnhaodd y swyddogion nad oedd cynllun o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd gan fod y swyddog addysg gan amlaf yn ymweld ag ysgolion. Byddai papur yn cael ei baratoi ar y mater ar gyfer y cyfarfod nesaf. Gofynnodd y Llywydd i'r papur gynnwys y ffigurau ar gyfer yr holl ymwelwyr â swyddfa'r Gogledd ac ar gyfer ymweliadau Tîm Rhanbarth y Gogledd.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn i'r arwyddion gael eu gwella ar ôl iddo ymweld â'r Ganolfan Ymwelwyr. Roedd yn awyddus iddynt fod yn fwy croesawgar, ond byddai'n rhaid derbyn y caniatâd cynllunio a landlord angenrheidiol.

2.2 Datganiad Strategol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad HC(2)-07-04(p3)

Roedd Pwyllgor y Ty wedi cymeradwyo nodau, egwyddorion a blaenoriaethau Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ym mis Hydref 2003. Roedd y rhain wedi'u datblygu yn y Datganiad Strategol er mwyn arwain gwaith cynllunio Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn ystod yr ail Gynulliad (2003 - 2007).

Dywedodd y Clerc mai dogfen reoli fewnol oedd y Datganiad Strategol a'i fod yn cynnwys nodau ac amcanion er mwyn sicrhau cynllunio ariannol cadarn ac asesu risg priodol. Byddai cofnod o'r hyn a gyflawnwyd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor bob blwyddyn. Croesawodd y Cadeirydd y ffaith bod gan y Pwyllgor gyfrifoldeb am y Datganiad. Nododd yr Aelodau y papur.

2.3 Papur ar berfformiad yn unol â thargedau HC(2)-07-04(p4)

Nododd y Clerc fod y ffigurau ar gyfer mis Awst, sef mis pan na chynhelir unrhyw fusnes ffurfiol. Serch hynny, bu'r gofyn am Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn gyson uchel. Ymwelodd y tîmau rhanbarth â'r nifer fwyaf erioed o ddigwyddiadau yn ystod y mis hwnnw. Dengys hyn ei bod yn briodol i'r timau rhanbarth ymweld â digwyddiadau mawr a bach.

Llongyfarchodd yr Aelodau staff Cofnod y Trafodion ar lwyddo'n gyson i gyhoeddi'r Cofnod 24 awr cyn y terfynau amser. Dywedodd Gwen Parry fod Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn gobeithio gallu darparu Cofnod 24 awr cwbl ddwyieithog o fis Ebrill 2005 ymlaen. Roedd proses recriwtio wrthi'n mynd rhagddi ar gyfer llenwi swyddi ychwanegol. Croesawodd yr Aelodau y datblygiad gan fod pryderon wedi'u mynegi yn y gorffennol ynghylch yr oedi o 5 diwrnod cyn i'r Cofnod cwbl ddwyieithog gael ei gyhoeddi.

Dywedodd y Llywydd ei fod yn awyddus i fynd i'r afael â'r gamdybiaeth yn y cyfryngau fod y Cynulliad yn recriwtio staff ychwanegol diangen. Roedd y Cynulliad yn ymrwymedig i egwyddorion Deddf Llywodraeth Cymru o ran trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Nid oedd cynhyrchu Cofnod cwbl ddwyieithog 5 diwrnod yn ddiweddarach yn cynrychioli triniaeth gyfartal. Roedd y Cynulliad wrthi'n datblygu dulliau o wella'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog wrth ddyrannu ac ehangu adnoddau yn briodol. Llongyfarchodd y Llywydd Gwen Parry a'i thîm ar y datblygiadau hyn.

Tynnodd yr Aelodau sylw at y lleihad yn nifer y bobl a ymwelodd â'r Cynulliad o'i gymharu â'r un mis y llynedd. Cytunwyd mai cau Pierhead Street ac atal mynediad ar ei hyd i Lanfa'r Cynulliad wrth i waith ar Ganolfan Mileniwm Cymru ac Adeilad Newydd y Cynulliad fynd rhagddo oedd y rheswm yn fwy na thebyg.

Holodd yr Aelodau a oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer arolygon neu holiaduron y gellid gofyn i ymwelwyr â'r Cynulliad eu llenwi er mwyn casglu eu sylwadau. Dywedodd Gwen Parry fod llyfrau i ymwelwyr yng Nglanfa'r Cynulliad ac yn adeilad y Cynulliad. Ar y cyfan roedd y sylwadau yn galonogol. Roedd y Gwasanaeth Gwybodaeth i'r Cyhoedd a Gwasanaethau'r Pwyllgorau wedi cynnal ymarfer 'siopwr dirgel' ac roeddent yn cydweithio er mwyn cynnal yr ymarfer unwaith eto. Nododd yr Aelodau bod arolwg syml ar gyfer cofnodi sylwadau ac awgrymiadau ar gael i ymwelwyr.

Holodd Owen John Thomas a oedd system yn bodoli ar gyfer ailystyried cynnwys arddangosfa canolfan ymwelwyr y Lanfa yn rheolaidd er mwyn annog ymwelwyr i ddychwelyd. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Pwyllgor y Ty wedi cytuno ynghynt y byddai cynnwys yr arddangosfa yn cael ei ddiweddaru ar ôl i adeilad newydd y Cynulliad gael ei gwblhau. Cytunodd yr Aelodau y byddai diweddaru rhai rhannau o'r arddangosfa yn rheolaidd yn annog ymwelwyr i ddychwelyd.

Cymeradwyodd yr Aelodau y dangosyddion perfformiad. Dywedodd y Cadeirydd fod cyhoeddi'r ffigurau hyn yn syniad da iawn. Canmolodd berfformiad staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad.

2.4 <u>Ymgynghori ynghylch y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol – Y Newyddion Diweddaraf</u>

Dywedodd Clerc y Pwyllgor y byddai Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn cyfrannu at y cynllun gweithredu fel rhan o ddull integredig gan y Cynulliad cyfan er mwyn cydymffurfio â dyletswyddau cyffredinol a phenodol Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000. Byddai'r mater hwn yn cael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

2.5 <u>Cysylltiadau Rhyngwladol a Rhyngranbarthol HC(2)-07-04(p5)</u>

Ymddiheurodd y Cadeirydd i'r Aelodau am ddosbarthu'r papur yn hwyr. Serch hynny, roedd yr Aelodau eisoes wedi cytuno ar y materion a amlinellwyd yn yr atodiadau.

Croesawodd yr Aelodau bapur a amlinellai werth y cysylltiadau Rhyngranbarthol a'r cysylltiadau Rhyngwladol i'r Cynulliad ynghyd â phwysigrwydd y berthynas â seneddau eraill yn y Gymanwlad.

Diben ymweliadau gan bwyllgorau oedd cefnogi a datblygu eu gwaith. Cyfeiriodd yr Aelodau at yr ymweliad ag Iwerddon er mwyn gweld sut roedd y celfyddydau a chwaraeon wedi adfywio ardal o amddifadedd. Roedd trafod â seneddwyr ac ymarferwyr a dysgu ganddynt yn hanfodol ac roedd gwerth mawr mewn gweld a phrofi prosiectau a gweithgareddau. Nododd yr Aelodau bod cysylltiadau agos â Senedd Gogledd Iwerddon yn bwysig o ran cynnig cymorth ymhob cam o'r broses heddwch a gweithio tuag at ailsefydlu Cynulliad Gogledd Iwerddon. Gallai'r Cynulliad gynnig cyfraniad unigryw gan fod gan y ddau gorff sawl mater yn gyffredin.

Roedd aelodaeth y Cynulliad o sefydliadau Rhyngseneddol gan gynnwys Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, Y Corff Rhyngseneddol Prydeinig-Gwyddelig, a'r Conférence Des Assemblés Legislatives Régionales Européennes (CALRE) o fudd mawr o ran hyrwyddo'r Cynulliad, a Chymru.

Nododd yr Aelodau yn ogystal fod gan sefydliadau seneddol eraill ar draws y byd ddiddordeb mawr yn y Cynulliad gan ei fod yn sefydliad ddwyieithog ac yn sefydliad arloesol o ran ei ddefnydd o dechnoleg.

Cytunodd yr Aelodau y dylid annog ymweliadau gan Aelodau unigol a dirprwyaethau Aelodau er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o seneddau a chynulliadau eraill ac i ddysgu ynghylch meysydd pwnc penodol.

Cytunodd yr Aelodau y byddai llythyr yn cael ei anfon at y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth er mwyn holi a oedd unrhyw ddatblygiadau o ran ailgyflwyno teithiau awyr o Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd i Frwsel.

**Gweithredu: Dianne Bevan**

Cymeradwyodd yr Aelodau y papur.

**3 Cyfleusterau'r Aelodau**

3.1 Gweithgareddau Cysylltiadau Tramor ac Allanol – Y Newyddion Diweddaraf

Nododd yr Aelodau fanylion y dirprwyaethau o bob rhan o'r byd sy'n ymweld â'r Cynulliad.

**4 Adeiladau**

4.1 Mân Waith Newydd – Y Newyddion Diweddaraf

Cadarnhaodd Nerys Evans fod y prosiectau ar gyfer uwchraddio'r system teledu cylch cyfyng a system awyru'r Neuadd a gymeradwywyd gan y Pwyllgor wedi'u cwblhau dros yr Haf.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bryderus ynghylch y ffaith nad oedd y llwybr ar hyd Pierhead Street wedi ailagor ar y dyddiad a bennwyd. Cafodd pryderon eu mynegi ynghynt yn y cyfarfod ynghylch effaith cau'r llwybr hwn ar nifer yr ymwelwyr â'r Lanfa. Roedd hefyd yn anghyfleus iawn i'r holl staff perthnasol. Dywedodd Nerys Evans fod contractwyr adeiladu Canolfan Mileniwm Cymru o dan bwysau i gwblhau'r gwaith angenrheidiol er mwyn ailagor y llwybr. Byddai swyddogion ar dîm prosiect Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gysylltu â'r contractiwr ac yn cyflwyno sylwadau pendant iddo.

**5 Materion a gyfeiriwyd gan gynnwys Cwestiynau'r Cynulliad**

5.1 Roedd WAQ37502 a WAQ37503 a gyflwynwyd i'w hateb ar 8 Medi 2004 wedi'u hanfon at yr Aelodau.

5.2 Cafodd OAQ38145 a OAQ38147 eu cyflwyno i'w hateb yn y cyfarfod llawn ar 6 Hydref 2004. Nododd y Cadeirydd fod ymrwymiad yn deillio o'r cwestiynau i ymchwilio i'r gefnogaeth ar gyfer plac coffa ac i'r gefnogaeth ar gyfer ei gynhyrchu. Byddai'r plac yn cael ei werthu yn siop y Cynulliad.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Cytunodd y Cadeirydd yn ogystal i ailddosbarthu'r rhestr o gyfieithwyr sydd ar gael i wneud gwaith i'r Aelodau. Dywedodd Gwen Parry mai Bwrdd yr Iaith Gymraeg oedd yn darparu'r rhestr o gyfieithwyr masnachol. Byddai'r rhestr yn cael ei dosbarthu ar y cyd â nodyn yn pwysleisio bod y cyfieithwyr allanol hyn yn cael eu hargymell gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

**Gweithredu: Gwen Parry**

**6 Unrhyw Fater Arall**

Nododd yr Aelodau bod Rheolwr Siop y Cynulliad yn trosglwyddo o'r siop. Diolchwyd i Richard Lewis am ei waith caled yn sefydlu'r siop ac am ei ymdrechion i gynnal y gwasanaeth.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 18 Tachwedd 2004
**Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty**